THE INSOLVENCY SERVICE

www.insolvency.gov.uk

CANLLAW I FETHDALIAD

Pryd?

Ble?

Sut?

Pwy?

beth?

CUSTOMER SERVICE EXCELLENCE

INVESTOR IN PEOPLE

Cynnwys

		Tudalen
1	**Ynglŷn â'r canllaw hwn**	5
2	**Beth yw methdaliad?**	5
3	**Sut ydych chi'n cael eich gwneud yn fethdalwr?**	6
4	**Ble mae'r gorchymyn methdaliad yn cael ei wneud?**	6
5	**Pwy fydd yn delio â'ch achos?**	7
6	**Beth yw eich dyletswyddau fel methdalwr?**	8
7	**Sut fydd methdaliad yn effeithio arnoch chi?**	9
8	**Beth yw'r cyfyngiadau ar fethdalwr?**	13
9	**Dod yn rhydd o fethdaliad**	13
10	**Gorchmynion ac ymgymeriadau cyfyngiadau methdaliad**	15
11	**Dyledion a achosir ar ôl i chi gael eich gwneud yn fethdalwr**	15
12	**Dewisiadau yn lle Methdaliad**	16
13	**Termau Ansolfedd – beth maen nhw'n ei olygu?**	16
14	**Ble i fynd am gymorth a chyngor**	18
15	**Deddf Diogelu Data 1998 – Sut y byddwn yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth**	20
16	**Cyhoeddiadau Perthnasol gan y Gwasanaeth Ansolfedd**	21

1. Ynglŷn â'r canllaw hwn

Mae'r canllaw hwn yn dweud wrthych beth sy'n digwydd os ydych chi'n cael eich gwneud yn fethdalwr yng Nghymru a Lloegr.

Arweiniad cyffredinol yn unig yw hwn. Os bydd achos methdaliad yn cael ei ddwyn yn eich erbyn chi, neu os ydych yn meddwl am wneud eich hun yn fethdalwr, dylech geisio eich cyngor cyfreithiol neu ariannol eich hun gan Ganolfan Cyngor ar Bopeth, cyfreithiwr, cyfrifydd cymwysedig, ymarferwr ansolfedd awdurdodedig, cynghorwr ariannol cyfrifol neu ganolfan cynghori ar ddyledion.

Mae sefydliadau eraill hefyd yn cynnig cyngor ar ansolfedd a chynghori ar ddyledion. Mae rhai ohonynt yn hollol gyfrifol ac yn cynnig gwasanaeth proffesiynol. Fodd bynnag, mae rhai'n cael eu rheoli gan unigolion heb gymwysterau amlwg sy'n ymddangos i gael eu cymell yn bennaf gan ddymuniad i ymelwa ar sefyllfa sydd eisoes yn un anodd. **Byddwch yn ofalus, yn enwedig os cewch gysylltiadau digymell drwy'r post neu dros y ffôn.**

a. Os nad ydych yn fethdalwr

Mae methdaliad yn fater difrifol. Bydd rhaid ichi ildio unrhyw feddiannau o werth a'ch budd yn eich cartref. (Mae Adran 7 yn rhoi manylion y pethau nad oes rhaid i chi eu hildio.) Bydd bron yn sicr yn golygu cau unrhyw fusnes rydych yn ei redeg a diswyddo eich gweithwyr cyflogedig. Bydd methdaliad hefyd yn rhoi cyfyngiadau penodol arnoch chi.

Does dim rhaid ichi fynd yn fethdalwr dim ond am fod mewn dyled. Edrychwch ar y dewisiadau yn lle methdaliad cyn gynted â phosibl rhag ofn eu bod yn fwy addas yn eich sefyllfa chi. Mae taflen o'r enw "Alternatives to Bankruptcy" [Dewisiadau yn lle Methdaliad] ar gael yn swyddfa eich derbynnydd swyddogol lleol neu ar-lein ar wefan y Gwasanaeth Ansolfedd yn www.insolvency.gov.uk.

b. Os ydych eisoes yn fethdalwr

Mae Adrannau 2-12 yn esbonio'r drefn fethdaliad. Bydd y derbynnydd swyddogol yn rhoi cyfarwyddiadau pellach i chi. Gallwch gynnig trefniant gwirfoddol o hyd (manylion yn adran 13) a allai ddirymu'r methdaliad.

Mae taflen ar wahân o'r enw "Can my bankruptcy be cancelled? Information on annulment of a bankruptcy order" [A oes modd diddymu fy methdaliad? Gwybodaeth am ddirymu gorchymyn methdaliad] ar gael o swyddfa eich derbynnydd swyddogol lleol neu ar-lein ar wefan y Gwasanaeth Ansolfedd yn www.insolvency.gov.uk. Dylech ystyried y daflen hon os ydych chi'n credu na ddylech fod wedi cael eich gwneud yn fethdalwr neu os oes modd talu neu sicrhau'n llawn eich holl ddyledion methdaliad a ffioedd a threuliau'r achos methdaliad.

2. Beth yw methdaliad?

Un ffordd o ddelio â dyledion na allwch eu talu yw methdaliad. Mae'r achos methdaliad:

- yn eich rhyddhau rhag dyledion llethol er mwyn i chi gael cychwyn o'r newydd, yn amodol ar rai cyfyngiadau (gweler adran 8); ac
- yn gwneud yn siŵr fod eich asedau'n cael eu rhannu'n deg rhwng eich credydwyr.

Gall unrhyw un fynd yn fethdalwr, gan gynnwys aelodau unigol mewn partneriaeth. Mae gwahanol weithdrefnau ansolfedd i ddelio â chwmnïau ac i bartneriaethau eu hunain. Mae taflenni ar wahân am y gweithdrefnau ansolfedd hyn ar gael (gweler adran 17).

3. Sut ydych chi'n cael eich gwneud yn fethdalwr?

Dim ond ar ôl cyflwyno deiseb methdaliad y bydd llys yn gwneud gorchymyn methdaliad. Caiff ei chyflwyno fel arfer naill ai:

- gennych chi eich hun (deiseb dyledwr); neu
- gan un neu ragor o gredydwyr y mae arnoch chi o leiaf £750 iddynt a bod y swm hwnnw'n ansicredig (deiseb credydwr).

Mae modd gwneud gorchymyn methdaliad hyd yn oed os ydych yn gwrthod cydnabod yr achos neu'n gwrthod cytuno â'r peth. Dylech felly gydweithredu'n llawn pan fydd yr achos methdaliad wedi dechrau. Os byddwch yn anghydweld â hawliad y credydwr, dylech geisio dod i gytundeb cyn dyddiad clywed y ddeiseb methdaliad. Mae ceisio gwneud hyn ar ôl i'r gorchymyn methdaliad gael ei wneud yn anodd ac yn ddrud.

I gael mwy o wybodaeth, gweler y taflenni canlynol:

- **How to petition for you own bankruptcy [Sut i ddeisebu am eich methdaliad eich hun]**
- **How to make someone bankrupt [Sut i wneud rhywun yn fethdalwr]**

4. Ble mae'r gorchymyn methdaliad yn cael ei wneud?

Mae deisebau methdaliad fel arfer yn cael eu cyflwyno yn yr Uchel Lys yn Llundain neu mewn llys sirol yn agos at y lle rydych chi'n masnachu neu'n byw. Gellir cyflwyno deiseb yn eich erbyn chi hyd yn oed os nad ydych yn bresennol yng Nghymru na Lloegr ar y pryd. Gall hyn ddigwydd pan:

- rydych fel arfer yn byw yng Nghymru neu Loegr, neu wedi bod â chysylltiadau preswyl neu fusnes â hwy yn ystod y 3 blynedd diwethaf

Weithiau bydd adrannau'r llywodraeth yn cychwyn achos methdaliad yn yr Uchel Lys yn Llundain neu yn un o'r Cofrestrfeydd Rhanbarth. Os nad oeddech yn masnachu neu os nad ydych yn byw yn ardal Llundain, bydd eich achos yn cael ei drosglwyddo fel arfer i'r llys sirol lleol priodol ac, os gwneir gorchymyn methdaliad, bydd y derbynnydd swyddogol lleol yn delio ag ef.

Ar ôl i'r gorchymyn methdaliad gael ei wneud, caiff ei hysbysebu yn "The London Gazette" (cyhoeddiad swyddogol sy'n cynnwys hysbysiadau cyfreithiol) ac mewn papur newydd lleol neu genedlaethol (neu'r ddau). Ar ben hyn, bydd y derbynnydd swyddogol yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig am y gorchymyn i nifer o sefydliadau (gweler adran 5).

5. Pwy fydd yn delio â'ch achos?

a. Y derbynnydd swyddogol

Penodir derbynnydd swyddogol gan yr Ysgrifennydd Gwladol ac mae'n un o swyddogion y llys. Y derbynnydd swyddogol sy'n gyfrifol am weinyddu eich methdaliad ac amddiffyn eich asedau o ddyddiad y gorchymyn methdaliad. Bydd ef neu hi hefyd yn gweithredu fel ymddiriedolwr eich ystâd methdaliad oni bai bod ymarferwr ansolfedd yn cael ei benodi.

Mae'r derbynnydd swyddogol hefyd yn gyfrifol am edrych ar eich materion ariannol am y cyfnod cyn ac yn ystod eich methdaliad. Gall y derbynnydd swyddogol adrodd i'r llys ac mae'n rhaid iddo adrodd i'ch credydwyr. Rhaid i'r derbynnydd swyddogol hefyd adrodd unrhyw faterion sy'n dangos y gallech fod wedi cyflawni troseddau mewn cysylltiad â'ch methdaliad neu eich bod wedi ymddwyn yn anonest neu eich bod ar fai mewn rhyw ffordd am eich methdaliad.

Bydd y derbynnydd swyddogol yn rhoi gwybod am y gorchymyn methdaliad i lysoedd, siryfion, beilïaid, Cyllid a Thollau EM, y Gofrestrfa Tir ac unrhyw gyrff proffesiynol perthnasol. Bydd hefyd yn gwneud ymholiadau gyda banciau; cymdeithasau adeiladu; cwmnïau morgais, pensiwn ac yswiriant; cyfreithwyr, landlordiaid ac unrhyw bobl neu sefydliadau eraill a allai roi manylion unrhyw asedau neu rwymedigaethau y mae gennych fudd ynddynt, neu y bu gennych fudd ynddynt (naill ai ar eich pen ei hun neu ar y cyd ag eraill). Holir trydydd partïon hefyd am unrhyw faterion eraill sy'n gysylltiedig â'ch methdaliad.

Os ydych yn anhapus â'r modd y mae eich achos yn cael ei drafod gan y derbynnydd swyddogol dylech ddilyn y drefn sydd wedi'i gosod allan yn ein taflen 'Complaints Procedure: Information on making a complaint.' [Gweithdrefn Gwyno: Gwybodaeth am wneud cwyn.]

Gallwch hefyd archebu copïau o'n cyhoeddiadau drwy ffonio'r Llinell Archebu Cyhoeddiadau ar 0845 015 0010. Neu gallwch lwytho'r daflen i lawr o'n gwefan, www.insolvency.gov.uk.

b. Ymarferwr ansolfedd

Unigolion sy'n arbenigo mewn gwaith ansolfedd yw ymarferwyr ansolfedd. Gellir penodi ymarferwr ansolfedd fel ymddiriedolwr yn lle'r derbynnydd swyddogol, ond rhaid iddo fod wedi'i awdurdodi naill ai gan yr Adran Busnes, Menter a Diwygio Rheoleiddio (BERR) neu'r corff proffesiynol priodol. Ef neu hi sy'n gyfrifol wedyn am waredu eich asedau a gwneud taliadau i'ch credydwyr.

Os hoffech gwyno am ymddygiad proffesiynol ymddiriedolwr (neu ddatodwr) sy'n ymarferwr ansolfedd yn y sector preifat, dylech ysgrifennu at ei gorff trwyddedu (Corff Proffesiynol Cydnabyddedig neu RPB). Fe gewch ragor o fanylion yn ein taflen 'How to make a complaint against an Insolvency Practitioner' [Sut i wneud cwyn yn erbyn Ymarferwr Ansolfedd.] Dylai'r ymarferwr ansolfedd roi manylion ei RPB ichi, neu ffoniwch y Llinell Ymholiadau Ansolfedd ar 0845 602 9848. Neu fe allwch anfon e-bost at y Llinell Ymholiadau Ansolfedd yn Insolvency.Enquiryline@insolvency.gsi.gov.uk.

I gael mwy o wybodaeth, gweler y taflenni canlynol:

- **What happens when you are interviewed by the official receiver [Beth sy'n digwydd pan gewch gyfweliad gan y derbynnydd swyddogol]**
- **Trustees and liquidators in bankruptcies and compulsory liquidations [Ymddiriedolwyr a datodwyr mewn methdaliad a datodiad gorfodol]**
- **Complaints procedure [Gweithdrefn gwyno]**
- **How to make a complaint against an Insolvency Practitioner [Sut i wneud cwyn yn erbyn Ymarferwr Ansolfedd]**

6. Beth yw eich dyletswyddau fel methdalwr?

Ar ôl i orchymyn methdaliad gael ei wneud, rhaid i chi:

- gydymffurfio â chais y derbynnydd swyddogol i roi gwybodaeth am eich materion ariannol. Gall y derbynnydd swyddogol ofyn ichi fynd i'w swyddfa i gael cyfweliad – bydd y llys yn rhoi cyfeiriad y derbynnydd swyddogol i chi. (Sylwer: fel arfer cyn y cyfweliad, bydd holiadur yn cael ei anfon atoch neu ei roi ichi a dylech ei ateb mor llawn a chywir â phosibl, neu fe allwch lenwi'r ffurflen hon ar-lein ar ein gwefan yn www.insolvency.gov.uk yn 'Complete your forms online'.) Os na fydd y derbynnydd swyddogol yn gofyn ichi fynd i'w swyddfa am gyfweliad, byddwch yn cael llythyr a fydd yn nodi'r hyn y mae gofyn ichi ei wneud. Unwaith eto, mae'n debygol y bydd gofyn ichi lenwi holiadur. Dylech sylweddoli beth bynnag y bydd unrhyw holiadur sy'n cael ei lenwi **cyn** y gorchymyn methdaliad, a roddwyd i chi gan gynghorwr neu drydydd parti arall, yn annerbyniol;
- rhoi rhestr lawn o'ch asedau i'r derbynnydd swyddogol a manylion yr hyn sy'n ddyledus gennych ac i bwy (eich credydwyr);
- edrych ar ôl eich asedau, ac yna eu trosglwyddo i'r derbynnydd swyddogol, ynghyd â'ch holl lyfrau, cofnodion, cyfriflenni banc, polisïau yswiriant a phapurau eraill* sy'n ymwneud â'ch eiddo a'ch materion ariannol;
- dweud wrth eich ymddiriedolwr am unrhyw asedau a chodiadau incwm a gewch yn ystod eich methdaliad. (Sylwer: Yn ôl y gyfraith mae'n rhaid i chi roi gwybod i'ch ymddiriedolwr am unrhyw eiddo y dewch yn berchen arno yn ystod y methdaliad. Mae eiddo o'r fath yn cynnwys cyfandaliadau arian y gallech eu cael, er enghraifft taliadau diswyddo, eiddo neu arian sy'n cael ei adael mewn ewyllys);
- peidio â defnyddio eich cyfrif banc, cymdeithas adeiladu, cerdyn credyd a chyfrifon tebyg ar unwaith (gweler adran 8);
- peidio â chael credyd o £500 neu ragor gan unrhyw berson heb ddatgelu'n gyntaf y ffaith eich bod yn fethdalwr (gweler adran 8);
- peidio â gwneud taliadau'n uniongyrchol i'ch credydwyr (gweler adran 7a).

Efallai y bydd yn rhaid i chi fynd i'r llys hefyd ac esbonio pam rydych mewn dyled. Os na fyddwch yn cydweithredu, gallech gael eich arestio.

*Bydd eich llyfrau a'ch papurau fel arfer yn cael eu dinistrio ar ôl i'ch ymddiriedolwr orffen â hwy. Fodd bynnag, gallwch eu cael yn ôl, os nad ydynt eisoes wedi cael eu dinistrio, os bydd y llys yn dirymu eich methdaliad (gweler adran 9).

7. Sut fydd methdaliad yn effeithio arnoch chi?

a. Mewn perthynas â'ch credydwyr

Os cewch eich gwneud yn fethdalwr, rhaid i chi beidio â gwneud taliadau uniongyrchol i gredydwyr. Bydd credydwyr y mae arnoch arian iddynt pan gewch eich gwneud yn fethdalwr yn gwneud hawliad i'ch ymddiriedolwr (hynny yw, naill ai'r derbynnydd swyddogol neu ymarferwr ansolfedd). Ni ddylent ofyn i chi'n uniongyrchol am daliad; os byddwch chi'n cael unrhyw geisiadau, dylech eu trosglwyddo ar unwaith i'ch ymddiriedolwr ddelio â hwy a dweud wrth y credydwr eich bod yn fethdalwr. Mae rhai eithriadau prin iawn i'r rheol peidio â thalu hon. Dyma'r prif rai:

- credydwyr gwarantedig, megis credydwyr sydd â morgais neu arwystl ar eich cartref. **Sylwer: Os na fydd taliadau morgais yn cael eu talu, gall y benthyciwr werthu eich cartref.**
- dyledion amhrofadwy, fel dirwyon llys a rhwymedigaethau eraill sy'n codi yn sgil gorchymyn a gafodd ei wneud mewn achos teuluol neu dan asesiad cynhaliaeth a wnaed o dan Ddeddf Cynnal Plant 1991. Nid yw dyledion amhrofadwy'n cael eu cynnwys yn yr achos methdaliad ac rydych yn dal yn gyfrifol am dalu dyledion o'r fath; a
- gordaliadau budd-dal, lle gall y darparwr budd-dal adennill unrhyw ordaliadau budd-dal o unrhyw fudd-daliadau pellach a gewch nes y cewch eich rhyddhau, pan gewch eich rhyddhau rhag y dyledion hyn.
- Benthyciadau myfyrwyr, ers 1 Medi 2004 nid oes modd hawlio unrhyw fenthyciadau myfyrwyr sydd heb eu talu mewn methdaliad. Maen nhw'n aros yn gyfrifoldeb y myfyriwr, neu'r cyn-fyfyriwr, i'w had-dalu yn unol â thelerau trefniant y benthyciad.
- Os cawsoch eich gwneud yn fethdalwr cyn 1 Medi 2004 efallai y bydd rhaid ichi ad-dalu eich benthyciad myfyrwyr o hyd. Dylech ofyn am eglurhad gan y derbynnydd swyddogol sy'n delio â'ch materion.

Ni chaiff cyflenwyr gwasanaethau i'ch cartref (nwy, trydan, dŵr a ffôn) fynnu taliad gennych am filiau yn eich enw sydd heb eu talu ar ddyddiad y gorchymyn methdaliad. Ond gallent ofyn ichi am flaendal tuag at dalu am gyflenwadau pellach neu gallent drefnu bod y cyfrifon yn cael eu trosglwyddo i enw eich priod neu bartner. Mae'n rhaid i chi dalu ymrwymiadau parhaus fel rhent (os ydych chi'n rhentu eich cartref), ynghyd ag unrhyw ddyledion a ddaw i'ch rhan ar ôl y methdaliad.

b. Taliad i gredydwyr

Bydd y derbynnydd swyddogol yn dweud wrth eich credydwyr eich bod yn fethdalwr. Gall naill ai weithredu fel yr ymddiriedolwr neu drefnu cyfarfod credydwyr er mwyn iddynt ddewis ymarferwr ansolfedd i fod yr ymddiriedolwr. Bydd hyn yn digwydd os yw'n ymddangos bod gennych asedau sylweddol. Efallai y bydd rhaid i chi fynd i'r cyfarfod hwn (neu unrhyw gyfarfod arall) o'ch credydwyr.

Bydd yr ymddiriedolwr yn dweud wrth y credydwyr faint o arian fydd yn cael ei rannu yn y methdaliad. Wedyn bydd rhaid i gredydwyr wneud eu hawliadau ffurfiol. Caiff costau'r achos methdaliad eu talu gyntaf o'r arian sydd ar gael. Mae'r costau'n cynnwys ffioedd y mae'r derbynnydd swyddogol neu'r ymarferwr ansolfedd yn eu codi am weinyddu eich achos.

Gall o leiaf rhan o'r hawliadau o'ch gweithwyr cyflogedig (os oes rhai) fod yn rhai blaenoriaethol a hwy a gaiff eu talu nesaf, ynghyd ag unrhyw ddyledion blaenoriaethol eraill. Yn olaf, caiff y credydwyr eraill eu talu, ynghyd â llog ar bob dyled, i'r graddau y mae arian ar gael o werthu eich

asedau. Os bydd arian dros ben, caiff ei ddychwelyd i chi. Byddech wedyn yn gallu gwneud cais i'r llys i 'ddirymu' eich methdaliad (ei ganslo).

Pan fydd eich ymddiriedolwr yn gwneud taliad i'ch credydwyr, gall osod hysbyseb am eich methdaliad mewn papur newydd yn gofyn i gredydwyr gyflwyno eu hawliadau. Gan ddibynnu ar ba mor hir y mae'n ei gymryd i'ch ymddiriedolwr ddelio â'ch asedau, gall yr hysbyseb hon ymddangos sawl blwyddyn ar ôl y gorchymyn methdaliad.

c. Eich asedau

Ni fyddwch bellach yn rheoli eich asedau.

Rhaid datgelu'r eitemau canlynol i'r derbynnydd swyddogol a fydd wedyn yn penderfynu a gewch eu cadw ai peidio:

- offer, llyfrau, cerbydau ac eitemau eraill o gyfarpar y mae angen i chi eu defnyddio'n bersonol yn eich cyflogaeth, eich busnes neu'ch galwedigaeth;
- dillad, dillad gwely, dodrefn, offer y tŷ ac eitemau sylfaenol eraill sydd eu hangen arnoch chi a'ch teulu yn y cartref.

Cewch gadw'r eitemau uchod, oni bai bod eu gwerth unigol yn fwy na chost eitem resymol yn eu lle.

Bydd y derbynnydd swyddogol/ymddiriedolwr yn cymryd rheolaeth ar eich holl asedau eraill pan gaiff y gorchymyn methdaliad ei wneud. Bydd ef neu hi, neu unrhyw ymarferwr ansolfedd a benodir yn ymddiriedolwr, yn eu gwaredu ac yn defnyddio'r arian i dalu ffioedd, costau a threuliau'r methdaliad ac wedyn i dalu eich credydwyr. Os caiff un ei benodi, bydd ffioedd yr ymarferwr ansolfedd am weithredu'n ymddiriedolwr yn cael eu talu hefyd o'r arian a godir drwy werthu eich asedau.

Gall yr ymddiriedolwr wneud cais i'r llys am orchymyn yn adfer eiddo iddo/iddi os ydych wedi gwaredu ag ef mewn modd a oedd yn annheg i'ch credydwyr (er enghraifft, os oeddech wedi trosglwyddo eiddo i berthynas am lai na'i werth cyn y methdaliad). Gall yr ymddiriedolwr hawlio eiddo y byddwch chi'n ei gael neu sy'n dod i chi (er enghraifft, o dan ewyllys) tra byddwch yn fethdalwr.

Nid yw benthyciad myfyriwr a wnaethpwyd cyn neu ar ôl cychwyn methdaliad myfyriwr yn cael ei ystyried yn ased y gall yr ymddiriedolwr ei hawlio, os yw gweddill y benthyciad yn parhau'n daladwy.

Os ydych wedi gwneud hawliad yn erbyn rhywun arall drwy achos llys, neu os ydych yn credu efallai bod hawliad gennych (hawl gweithredu) yn erbyn person arall, gall yr hawliad fod yn ased yn y methdaliad.

d. Beth sy'n digwydd i'ch cartref

Os ydych yn berchen ar eich cartref, boed yn rhydd-ddaliadol neu ar brydles, yn unigol neu ar y cyd, gyda morgais neu fel arall, bydd eich budd yn y cartref yn ffurfio rhan o'ch ystâd y bydd eich ymddiriedolwr yn delio â hi. Efallai y bydd yn rhaid gwerthu'r cartref i fynd tuag at dalu eich dyledion.

Os yw eich gŵr, eich gwraig neu eich plant yn byw gyda chi, gall fod yn bosibl oedi'r gwerthu yn y methdaliad tan ar ôl diwedd blwyddyn gyntaf eich methdaliad. Mae hyn yn rhoi amser i wneud trefniadau eraill mewn perthynas â thai. Efallai y bydd eich gŵr, gwraig, partner, perthynas neu ffrind yn gallu prynu eich budd yn eich cartref oddi wrth yr ymddiriedolwr. Gall hyn fod yn bosibl hyd yn oed os yw'r budd hwnnw'n fychan iawn, gwerth dim byd neu os oes arnoch chi fwy ar y tŷ

na'i werth presennol. Byddai pryniad o'r fath yn atal yr ymddiriedolwr rhag gwerthu'r eiddo yn ddiweddarach. Dylid annog eich priod neu unrhyw gyfranogwr arall i gael cyngor cyfreithiol am y cartref cyn gynted â phosibl.

Os na all yr ymddiriedolwr werthu eich cartref ar hyn o bryd, gallai gael gorchymyn talu ar eich budd ynddo, ond dim ond os yw'r budd hwnnw gwerth mwy na £1,000. Os ceir gorchymyn talu, bydd eich budd yn yr eiddo'n cael ei ddychwelyd i chi, ond bydd yr arwystl cyfreithiol dros eich budd yn parhau. Y swm fydd yn cael ei gynnwys yn yr arwystl cyfreithiol fydd cyfanswm gwerth eich budd yn yr eiddo a rhaid i'r swm hwn gael ei dalu o'ch cyfran chi o'r arian pan werthwch yr eiddo.

Nes bod eich budd yn y cartref yn cael ei werthu, neu nes bod yr ymddiriedolwr yn cael gorchymyn talu drosto, bydd y budd hwnnw'n parhau i fod yn eiddo i'r ymddiriedolwr ond dim ond am gyfnod penodol, 3 blynedd fel arfer, a bydd hyn yn cynnwys unrhyw gynnydd yn ei werth. Felly, bydd mantais unrhyw gynnydd mewn gwerth yn mynd i'r ymddiriedolwr i dalu eich dyledion, hyd yn oed os gwerthir y cartref beth amser ar ôl i chi gael eich rhyddhau o fethdaliad: **nid chi fydd biau'r cynnydd yn y gwerth.**

Ar ôl amser penodol, 3 blynedd fel arfer, os nad yw eich ymddiriedolwr wedi gwerthu na chael arwystl dros eich budd yn yr eiddo, nac wedi gwneud cais am orchymyn meddiant na chael gorchymyn talu yn erbyn yr eiddo, ac os nad ydych wedi dod i unrhyw drefniant gyda'ch ymddiriedolwr am y budd hwnnw, efallai bydd yn cael ei ddychwelyd i chi.

I gael rhagor o wybodaeth, gweler y daflen isod:

- **What will happen to my home [Beth fydd yn digwydd i fy nghartref?]**

e. Eich pensiwn

Fel arfer nid yw ymddiriedolwr yn gallu hawlio pensiwn yn ased os cafodd eich deiseb methdaliad ei chyflwyno ar neu ar ôl 29 Mai 2000, cyn belled â bod y cynllun pensiwn wedi ei gymeradwyo gan Gyllid a Thollau EM.

O ran deisebau a gyflwynwyd cyn 29 Mai 2000, gall ymddiriedolwyr hawlio rhai mathau o bensiynau. Mae taflen ar wahân o'r enw "What will happen to my pension?" [Beth fydd yn digwydd i fy mhensiwn?] ar gael o swyddfa eich derbynnydd swyddogol lleol neu Linell Archebu Cyhoeddiadau'r Gwasanaeth Ansolfedd (cyfeiriad ar y clawr cefn).

Os ydych chi'n cael pensiwn neu'n gallu hawlio pensiwn cyn i chi gael eich rhyddhau, caiff y pensiwn ei gynnwys fel incwm at ddibenion gorchymyn taliadau incwm (IPO) (gweler adran 7i).

I gael rhagor o wybodaeth, gweler y daflen isod:

- **What will happen to my pension [Beth fydd yn digwydd i fy mhensiwn]**

f. Eich polisi yswiriant bywyd

Ar y cyfan, bydd eich ymddiriedolwr yn gallu hawlio unrhyw fudd sydd gennych mewn polisi yswiriant bywyd. Efallai y bydd gan yr ymddiriedolwr yr hawl i werthu neu ildio'r polisi a chasglu unrhyw elw ar ran eich credydwyr. Os yw'r polisi yswiriant bywyd yn bolisi ar y cyd, er enghraifft gyda'ch gŵr neu wraig, mae'n debygol y bydd gan y person arall fudd yn y polisi a dylai gysylltu â'r ymddiriedolwr ar unwaith i drafod sut y dylid delio â'r budd hwnnw yn y polisi.

Efallai y byddwch eisiau i'r polisi barhau. Holwch eich ymddiriedolwr: efallai y bydd yn bosibl trosglwyddo eich budd am swm cyfwerth i werth presennol y budd hwnnw.

Os yw'r polisi yswiriant bywyd wedi cael ei arwystlo'n gyfreithiol i unrhyw berson, er enghraifft polisi gwaddol yn cael ei ddefnyddio fel sicrwydd dros y morgais ar eich cartref, ni fydd hawliau'r credydwyr gwarantedig yn cael eu heffeithio wrth wneud y gorchymyn methdaliad. Ond gall unrhyw werth dros ben yn y polisi fod yn eiddo i'ch ymddiriedolwr.

g. Cofrestriadau, trwyddedau a hawliau perthynol i waith

Gall unrhyw gofrestriad, trwydded neu hawl rydych chi'n ei ddal mewn cysylltiad â'ch gwaith neu fasnach gael ei effeithio wrth wneud y gorchymyn methdaliad. Dylech roi gwybod i'r sawl a gofrestrodd neu a awdurdododd eich methdaliad i ganfod a fydd yn parhau mewn grym neu a fydd yn cael ei ganslo neu ei dynnu'n ôl. Gall unrhyw werth sy'n berthnasol i'r eitemau hyn fod yn eiddo i'r ymddiriedolwr. Wrth ystyried y mater hwn, dylech ddiystyru eitemau o natur bersonol fel trwydded yrru.

h. Eich busnes

Os ydych yn hunangyflogedig, caiff eich busnes ei gau i lawr fel arfer a chaiff unrhyw weithwyr cyflogedig eu diswyddo. Bydd unrhyw asedau busnes yn cael eu hawlio gan yr ymddiriedolwr oni bai eu bod yn eithriedig (gweler adran 7c) a bydd rhaid i chi roi eich holl gofnodion cyfrifyddu i'r derbynnydd swyddogol. Rydych chi'n dal yn gyfrifol am lenwi eich ffurflenni treth a TAW i gyd.

Efallai y bydd eich gweithwyr cyflogedig yn gallu gwneud hawliad i'r Gronfa Yswiriant Gwladol am gyflogau a thâl gwyliau sy'n ddyledus iddynt, tâl yn lle rhybudd a thâl diswyddo. Gall gweithwyr cyflogedig hawlio yn y methdaliad am unrhyw arian sy'n ddyledus na chaiff ei dalu gan y Gronfa Yswiriant Gwladol.

Am fanylion pellach, dylech gysylltu â'r Gwasanaeth Taliadau Diswyddo ar 0845 145 0004.

Does dim byd yn rhwystro methdalwr rhag bod yn hunangyflogedig. Felly gallwch ddechrau masnachu eto, yn amodol ar y cyfyngiadau yn adran 8. Byddwch chi'n gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu ar gyfer y busnes hwn ac am ddelio â gofynion treth a TAW y busnes newydd. Bydd angen i chi gofrestru ar gyfer TAW eto os byddwch yn bodloni'r gofynion cofrestru. Ni ddylech barhau i ddefnyddio eich rhif cofrestru TAW cyn y methdaliad.

i. Eich cyflog

Gall eich ymddiriedolwr wneud cais i'r llys am orchymyn taliadau incwm (IPO), sy'n gofyn i chi wneud cyfraniadau tuag at ddyledion y methdaliad o'ch incwm. Ni fydd y llys yn gwneud IPO pe byddai'n eich gadael heb ddigon o incwm i fodloni eich anghenion domestig rhesymol chi a'ch teulu. Os byddwch yn cael cynnydd neu ostyngiad incwm, gellir newid yr IPO.

Mae taliadau IPO yn para 3 blynedd ar y mwyaf o'r dyddiad y bydd y llys yn gwneud y gorchymyn a gall barhau ar ôl i chi gael eich rhyddhau o'ch methdaliad. Neu gallwch ddod i gytundeb ysgrifenedig â'ch ymddiriedolwr, o'r enw cytundeb taliadau incwm (IPA), i dalu hyn a hyn o'ch incwm i'r ymddiriedolwr am gyfnod y cytunir arno, heb fod yn fwy na 3 blynedd. Nid oes unrhyw ganllawiau penodol ar IPO nac IPA – mae pob achos yn cael ei asesu'n unigol.

8. Beth yw'r cyfyngiadau ar fethdalwr?

Mae'r canlynol yn droseddau i fethdalwr heb ei ryddhau:

- cael credyd o £500 neu fwy naill ar eich pen eich hun neu ar y cyd ag unrhyw berson arall heb ddatgelu eich methdaliad. (Sylwer: nid benthyg arian yn unig yw hyn – mae'n cynnwys cael credyd o ganlyniad i ddatganiad neu ymddygiad a fwriadwyd i gael credyd, er nad ydych wedi gwneud cytundeb penodol amdano. Er enghraifft, archebu nwyddau heb ofyn am gredyd ac wedyn methu talu amdanynt pan gânt eu dosbarthu);
- parhau gyda'r busnes (yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol) gan ddefnyddio enw gwahanol i'ch enw pan gawsoch eich gwneud yn fethdalwr, heb ddweud wrth bawb yr ydych yn gwneud busnes â hwy eich enw pan gawsoch eich gwneud yn fethdalwr;
- bod yn rhan (yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol) o hyrwyddo, ffurfio neu reoli cwmni cyfyngedig, neu weithredu fel cyfarwyddwr cwmni, heb ganiatâd y llys, boed wedi'ch penodi'n gyfarwyddwr yn ffurfiol neu beidio.

Ni chewch ddal rhai swyddi cyhoeddus penodol. Ni chewch ddal swydd fel ymddiriedolwr elusen neu gronfa bensiwn.

Ar ôl y gorchymyn methdaliad, cewch agor cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu newydd ond dylech ddweud wrthynt eich bod yn fethdalwr; efallai y byddant yn gosod amodau a chyfyngiadau. Dylech sicrhau nad ydych yn cael cyfleusterau gorddrafft heb roi gwybod i'r banc eich bod yn fethdalwr, nac ysgrifennu sieciau sy'n debygol o gael eu gwrthod. Dywedwch wrth eich ymddiriedolwr am unrhyw arian sydd gennych yn y cyfrif sy'n fwy nag sydd ei angen arnoch ar gyfer eich costau byw rhesymol. Gall eich ymddiriedolwr hawlio'r symiau dros ben i dalu eich credydwyr.

I gael rhagor o wybodaeth, gweler y daflen isod:

- **What will happen to my bank account [Beth fydd yn digwydd i fy nghyfrif banc?]**

9. Dod yn rhydd o fethdaliad

a. Am faint mae methdaliad yn para?

Os cawsoch eich gwneud yn fethdalwr ar neu ar ôl 1 Ebrill 2004

Cewch eich rhyddhau o fethdaliad yn awtomatig (eich "gollwng") ar ôl 12 mis ar y mwyaf. Gall y cyfnod hwn fod yn fyrrach os bydd y derbynnydd swyddogol yn cwblhau ei ymholiadau i'ch materion ac yn cofnodi hysbysiad yn y llys.

Os cawsoch eich gwneud yn fethdalwr cyn 1 Ebrill 2004

Os hwn oedd eich methdaliad cyntaf, byddwch chi wedi cael eich rhyddhau'n awtomatig ar 1 Ebrill 2005 neu, os oedd eich dyddiad rhyddhau cyn 1 Ebrill 2005, byddwch chi wedi cael eich rhyddhau ar y dyddiad cynharach hwnnw.

Os ydych wedi bod yn fethdalwr heb ei ryddhau ar unrhyw adeg yn ystod y 15 mlynedd cyn y methdaliad cyfredol (oni bai bod y methdaliad blaenorol wedi cael ei ddirymu) byddwch chi'n cael

eich rhyddhau'n awtomatig ar 1 Ebrill 2009. Neu gallwch ofyn i'r llys am ryddhad 5 mlynedd ar ôl dyddiad y gorchymyn methdaliad, ond gallai'r llys wrthod neu oedi eich rhyddhad, neu ei ganiatáu'n amodol ar delerau sy'n gofyn ichi wneud rhai taliadau allan o'ch incwm.

Byddwch hefyd yn dod yn rhydd o fethdaliad ar unwaith os bydd y llys yn dirymu'r gorchymyn methdaliad (ei ganslo); byddai hyn yn digwydd fel arfer pan fydd eich dyledion a ffioedd a threuliau'r achos methdaliad wedi cael eu talu'n llawn neu os na ddylid fod wedi gwneud y gorchymyn methdaliad.

Ar y llaw arall, os nad ydych wedi cyflawni eich dyletswyddau o dan yr achos methdaliad, gall y derbynnydd swyddogol neu eich ymddiriedolwr wneud cais i'r llys am ohirio eich rhyddhad. Os bydd y llys yn cytuno, ni ddaw eich methdaliad i ben nes i'r gohiriad gael ei godi a bod yr amser sydd ar ôl ar eich cyfnod methdaliad wedi gorffen. Os cafodd eich rhyddhad ei ohirio (ei atal) cyn 1 Ebrill 2004, dylech gysylltu â'r derbynnydd swyddogol i gael gwybod sut a phryd y gallech gael eich rhyddhau o fethdaliad.

b. Dyledion

Mae rhyddhad yn eich rhyddhau o'r rhan fwyaf o'r dyledion a oedd gennych ar ddyddiad y gorchymyn methdaliad. Mae eithriadau'n cynnwys dyledion yn sgil twyll ac unrhyw hawliadau na ellir eu gwneud yn y methdaliad ei hun (dyledion amhrofadwy - gweler adran 7a). Ni chewch eich rhyddhau o rwymedigaeth i dalu iawndal am anafiadau personol i unrhyw berson oni bai bod y llys yn ystyried bod hyn yn addas.

Pan gewch eich rhyddhau gallwch fenthyg arian neu barhau gyda'ch busnes heb y cyfyngiadau y cyfeiriwyd atynt yn flaenorol. Cewch weithredu fel cyfarwyddwr cwmni cyfyngedig oni chawsoch eich gwahardd rhag gwneud hynny o ganlyniad i orchymyn ar wahân sy'n codi o'ch cyfranogiad mewn cwmni.

c. Asedau a oedd yn berchen i chi neu a gafodd eu caffael cyn eich rhyddhau

Pan gewch eich rhyddhau efallai bydd asedau roeddech chi'n berchen arnynt, naill ai pan ddechreuwyd eich methdaliad neu a gawsoch cyn eich rhyddhad, nad yw'r ymddiriedolwr wedi delio â hwy eto. Ymhlith enghreifftiau o'r rhain y mae budd yn eich cartref, polisi yswiriant neu etifeddiaeth. Mae'r asedau hyn yn dal i gael eu rheoli gan yr ymddiriedolwr sy'n gallu delio â hwy **unrhyw bryd** yn y dyfodol. Efallai na fydd hyn am nifer o flynyddoedd **ar ôl eich rhyddhau**. Ar y cyfan, nid yw'r asedau hyn yn dychwelyd i chi, ond gweler adran 7d uchod am fanylion yr hyn sy'n digwydd i'ch cartref.

Gyda rhai asedau – fel eich cartref a rhai mathau o bolisi yswiriant – efallai bydd eich priod, partner, perthynas neu gyfaill eisiau prynu eich budd. Dylai ef neu hi gysylltu â'r ymddiriedolwr ar unwaith i gael gwybod faint y buasai'n rhaid iddo/iddi dalu.

Mae'n rhaid i chi ddweud wrth y derbynnydd swyddogol am asedau a gewch ar ôl i'r ymddiriedolwr orffen delio â'ch achos ond **cyn** i chi gael eich rhyddhau. Gellid hawlio'r asedau hyn i dalu eich credydwyr. Mae gennych ddyletswydd i barhau i gynorthwyo eich ymddiriedolwr ar ôl i chi gael eich rhyddhau.

d. Asedau a gewch ar ôl eich rhyddhau

Fel arfer cewch gadw'r holl asedau y byddwch yn eu cael **ar ôl eich rhyddhau.**

I gael rhagor o wybodaeth, gweler y daflen isod:

- **When will my bankruptcy end? Information on discharge from bankruptcy [Pryd fydd fy methdaliad yn dod i ben? Gwybodaeth am ryddhau o fethdaliad]**

10. Gorchmynion ac ymgymeriadau cyfyngiadau methdaliad

Yn ystod ei ymholiadau i'ch materion, os bydd y derbynnydd swyddogol yn penderfynu y buoch chi'n anonest naill ai cyn neu ar ôl y methdaliad neu eich bod ar fai fel arall am eich sefyllfa, gall wneud cais i'r llys am orchymyn cyfyngiadau methdaliad. Gall y llys wneud gorchymyn yn eich erbyn am gyfnod rhwng 2 a 15 mlynedd a bydd y gorchymyn hwn yn golygu eich bod yn dal yn destun y cyfyngiadau methdaliad a ddisgrifir yn adran 8 uchod. Gallwch roi ymrwymiad i gyfyngiadau methdaliad a fydd yn cael yr un effaith â gorchymyn, ond yn golygu na fydd y mater yn mynd i'r llys.

11. Dyledion a achosir ar ôl i chi gael eich gwneud yn fethdalwr

Mae methdaliad yn delio â'ch dyledion ar ddyddiad y gorchymyn methdaliad. Ar ôl y dyddiad hwnnw, dylech reoli eich arian yn fwy gofalus. Os byddwch yn mynd i ddyledion newydd, gallai hyn arwain at:

- orchymyn methdaliad pellach;
- eich erlyn os na wnaethoch chi ddatgelu eich bod yn fethdalwr pan aethoch i ddyled.

12. Dewisiadau yn lle Methdaliad

Gall fod yn well i chi ac i'ch credydwyr pe byddech yn defnyddio gweithdrefn yn lle methdaliad.

I gael rhagor o wybodaeth, gweler y cyhoeddiad canlynol:

- Alternatives to bankruptcy [Dewisiadau yn lle Methdaliad]

13. Termau Ansolfedd – beth maen nhw'n ei olygu?

Dirymiad
Diddymiad.

Asedau
Unrhyw beth sy'n eiddo i chi y gellir ei ddefnyddio i dalu eich dyledion.

Gorchymyn methdaliad
Gorchymyn llys yn eich gwneud chi'n fethdalwr.

Gorchymyn neu ymrwymiad cyfyngiadau methdaliad

Gweithdrefn yw hon lle gall gorchymyn llys gael ei wneud yn eich erbyn neu'ch bod yn gwneud ymrwymiad a fydd yn golygu bod y cyfyngiadau methdaliad yn parhau'n weithredol am gyfnod rhwng 2 a 15 mlynedd.

Deiseb methdaliad
Cais a wneir (gennych chi'r dyledwr neu gan gredydwr) i'r llys i'ch gwneud chi'n fethdalwr ac sy'n rhoi'r rhesymau pam.

Gorchymyn talu
Gorchymyn gan y llys sy'n rhoi hawl gyfreithiol i'r ymddiriedolwr ar eich budd yn eich cartref. Mae hyn yn parhau hyd yn oed ar ôl i'r dyledwr gael ei ryddhau o fethdaliad.

Credydwr
Rhywun yr ydych mewn dyled ariannol iddo.

Dyledion
Arian sy'n ddyledus gennych.

Rhyddhau
Rhyddhau o fethdaliad

Ystâd
Eich asedau neu'ch eiddo y gall eich ymddiriedolwr ddelio â hwy er mwyn talu eich credydwyr.

Cytundeb taliadau incwm

Gallwch wneud cytundeb ysgrifenedig â'ch ymddiriedolwr i dalu iddo ran o'ch cyflog neu incwm arall am gyfnod y cytunir arno.

Gorchymyn taliadau incwm
Gall y llys wneud gorchymyn eich bod yn talu rhan o'ch cyflog neu incwm arall i'r ymddiriedolwr os yw'ch incwm yn fwy nag sydd ei angen arnoch chi neu'ch teulu i fyw.

Ymarferwr ansolfedd
Person awdurdodedig sy'n arbenigo mewn ansolfedd, fel arfer cyfrifydd neu gyfreithiwr. Caiff ei awdurdodi naill ai gan yr Ysgrifennydd Gwladol neu gan un o nifer o gyrff proffesiynol cydnabyddedig.

Budd
Hawl i eiddo, neu gyfran mewn eiddo.

Arwystl cyfreithiol
Ffurf ar sicrwydd (megis morgais) i sicrhau talu dyled.

Deiseb
Gweler hefyd "Deiseb Methdaliad".

Credydwr blaenoriaethol
Credydwr mewn achos methdaliad sydd â hawl i dderbyn rhai taliadau cyn credydwyr ansicredig eraill. Mae'r credydwyr hyn yn cynnwys cynlluniau pensiwn galwedigaethol a gweithwyr cyflogedig.

Dirprwy
Yn lle bod yn bresennol mewn cyfarfod, gall rhywun benodi rhywun arall i fynd i bleidleisio ar ei ran – 'dirprwy'.

Archwiliad cyhoeddus
Gall y llys wneud gorchymyn i'r methdalwr gael ei holi mewn llys agored am ei faterion, ei ddeiliaid a'i eiddo.

Ymddiriedolwr
Yr ymddiriedolwr mewn methdaliad yw naill ai'r derbynnydd swyddogol neu ymarferwr ansolfedd sy'n cymryd rheolaeth ar eich asedau. Prif ddyletswyddau'r ymddiriedolwr yw gwerthu'r asedau hyn a rhannu'r arian rhwng y credydwyr.

Credydwr ansicredig.
Credydwr nad yw'n dal sicrwydd (megis morgais) am arian sy'n ddyledus. Gall rhai credydwyr ansicredig hefyd fod yn gredydwyr blaenoriaethol.

14. Ble i fynd am gymorth a chyngor

Nid yw'r derbynnydd swyddogol yn anfon unrhyw fath o hysbysiad at asiantaethau cyfeirio credyd. Os ydych yn pryderu am wybodaeth sydd yn eu meddiant, mae cyhoeddiad o'r enw "Credit explained" yn cael ei gynhyrchu gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac mae ar gael ar ei gwefan yn http://www.informationcommissioner.gov.uk neu drwy ffonio 08453 091 091.

Nid dyma'r unig sefydliadau a all eich helpu. Ni all y Gwasanaeth Ansolfedd na Gwasanaeth y Llysoedd dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am yr wybodaeth, cyngor neu wasanaethau eraill a ddarparir gan y sefydliadau hyn.

Sefydliad	Pwy ydyn nhw	Manylion cyswllt
Y Gwasanaeth Cynghori, Cymodi a Chyflafareddu (ACAS)	Corff cyhoeddus yw'r Gwasanaeth Cynghori, Cymodi a Chyflafareddu (ACAS) sy'n cael ei ariannu gan drethdalwyr. Mae'n cynnig cymorth a gwybodaeth am ddim am faterion yn ymwneud â gwaith.	Llinell gymorth: 08457 474747 Oriau agor: Dydd Llun i ddydd Gwener 8am - 6pm. Gwefan: www.acas.org.uk Mae yna fanylion ar wefan ACAS am swyddfeydd lleol ACAS.
Business Debtline	Mae Business Debtline yn elusen gofrestredig sy'n darparu gwasanaeth cynghori am ddyled am ddim ar y ffôn i'r hunangyflogedig a busnesau bach sy'n wynebu caledi ariannol. Mae cyngor am ddim, yn annibynnol a chyfrinachol.	Llinell gymorth: 0800 197 6026 Oriau agor: Dydd Llun i ddydd Gwener 10am - 4pm Gwefan: www.bdl.org.uk
Cyngor Ar Bopeth (CAB)	Elusen gofrestredig yw Canolfan Ar Bopeth sy'n cynnig cyngor annibynnol a chyfrinachol am ddim mewn mwy na 700 o fannau ledled y DU.	Llinell gymorth: 0207 833 2181 i ddod o hyd i'ch Canolfan Cyngor Ar Bopeth leol (CAB). Oriau agor: Dydd Llun i ddydd Gwener 8am - 6pm Gwefan: www.cyngorarbopeth.org.uk sy'n cynnwys cyfeiriadur o Ganolfannau Cyngor ar Bopeth lleol. I gael cyngor, trowch at wefan Canllaw Cyngor CAB yn www.adviceguide.org.uk
Y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol (CLS)	Mae'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol (LSC) yn rhedeg y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol (CLS) ac yn gweinyddu'r hyn a alwyd yn flaenorol yn gymorth cyfreithiol. Mae Cyfeiriadur CLS yn rhestru cyfreithwyr ac asiantaethau cynghori yn eich ardal chi.	Llinell gymorth: 0845 345 4345 Oriau agor: Dydd Llun i ddydd Sul 9am – 5.30pm. Gwefan: www.clsdirect.org.uk Gallwch ddod o hyd i gynghorwr cyfreithiol a gymeradwywyd gan CLS gan ddefnyddio Cyfeiriadur CLS sydd ar gael yn eich llyfrgell leol neu ar y wefan. Mae'r wefan ar gael yn Saesneg, Cymraeg, Wrdw, Bengaleg, Tsieineeg, Pwnjabeg, Tyrceg a Gwjarati.

Sefydliad	Pwy ydyn nhw	Manylion cyswllt
Gwasanaeth Cynghori Credyd Defnyddwyr (CCCS)	Elusen gofrestredig yw CCCS sydd wedi ymroi i roi cyngor cyfrinachol am ddim a chymorth i reoli arian i deuluoedd ac unigolion sydd mewn ffwdan yn ariannol. Mae'n rhoi cyngor am drefnu arian; cyngor am ddefnyddio credyd yn ddoeth; a phan fydd yn briodol, mae'n darparu cynlluniau cyraeddadwy i ad-dalu dyledion.	Llinell gymorth: 0800 138 1111 Oriau agor: Dydd Llun i ddydd Gwener 8am - 8pm Gwefan: www.cccs.co.uk
Consumer Direct	Consumer Direct yw'r gwasanaeth ffôn ac ar-lein a ariennir gan y llywodraeth sy'n cynnig gwybodaeth a chyngor am faterion defnyddwyr. Mae Consumer Direct yn cael ei ariannu gan y Swyddfa Masnachu Teg a'i gyflwyno mewn partneriaeth â Gwasanaethau Safonau Masnachu Awdurdod Lleol.	Llinell gymorth: 0845 404 0506 Oriau agor: Dydd Llun i ddydd Gwener 8am - 6.30pm. Dydd Sadwrn 9am- 1pm. Gwefan: www.consumerdirect.gov.uk
Lawyers For Your Business (LFYB)	Menter gan Gymdeithas y Gyfraith yw LFYB sy'n cynrychioli tua 1,400 o gwmnïau cyfreithwyr yng Nghymru a Lloegr sydd wedi dod ynghyd i sicrhau bod busnesau, yn enwedig y rhai bach sy'n cael eu rheoli gan eu perchenogion, yn gallu cael cyngor cyfreithiol cadarn pan fydd ei angen.	Llinell gymorth: 0207 405 9075 Oriau agor: Dydd Llun i ddydd Gwener 9am - 5.30pm. Cewch restr o'r cyfreithwyr yn eich ardal sy'n aelodau (gan gynnwys gwybodaeth am feysydd gwaith arbenigol a'r ieithoedd a siaredir) a thaleb i gael sesiwn gynghori am ddim. Gwefan: http://www.lawsociety.org.uk/choosingandusing/helpyourbusiness/foryourbusiness.law
National Debtline	Mae National Debtline yn rhoi cyngor cyfrinachol ac annibynnol am ddim dros y ffôn i unrhyw un sy'n cael anhawster ariannol. Bydd galwyr yn cael pecyn gwybodaeth rhad ac am ddim i helpu eu hunain.	Llinell gymorth: 0808 808 4000 Oriau agor: Dydd Llun i ddydd Gwener 9am - 9pm a dydd Sadwrn 9.30am - 1pm Gwefan: www.nationaldebtline.co.uk
Y Gwasanaeth Busnesau Bach (SBS)	Un o asiantaethau'r Llywodraeth yw'r Gwasanaeth Busnesau Bach (SBS) sydd wedi ei sefydlu i helpu busnesau bach a darparu iddyn nhw un ffynhonnell o wybodaeth a chyngor o safon.	Llinell gymorth: 0207 215 5000 Oriau agor: Dydd Llun i ddydd Gwener 8.30am - 5.30pm Gwefan: www.sbs.gov.uk

15. Deddf Diogelu Data 1998 – Sut y byddwn yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth

Mae'r derbynnydd swyddogol yn casglu gwybodaeth amdanoch i fodloni ei swyddogaethau statudol mewn perthynas â'ch methdaliad. Gall y derbynnydd swyddogol wirio gwybodaeth a roddwyd gennych chi, neu wybodaeth amdanoch chi a roddwyd gan drydydd parti, o'i chymharu â gwybodaeth arall sydd ganddo. Gall hefyd gael gwybodaeth amdanoch chi gan rai trydydd partïon, neu roi gwybodaeth iddyn nhw, i wirio cywirdeb y wybodaeth neu atal neu ganfod trosedd. Ni fydd yn datgelu gwybodaeth amdanoch chi i neb y tu allan i'r Gwasanaeth Ansolfedd oni fydd y gyfraith yn caniatáu iddo wneud hynny. Bydd ychydig o'r wybodaeth y mae'r derbynnydd swyddogol yn ei chadw'n cael ei rhoi i Bencadlys y Gwasanaeth Ansolfedd wrth gyflawni ei swyddogaethau statudol.

Y derbynnydd swyddogol yw'r Rheolydd Data at ddibenion Deddf Diogelu Data 1998. (Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Menter a Diwygio Rheoleiddio yw'r Rheolydd Data o dan y Ddeddf honno ar gyfer gwybodaeth bersonol a gedwir gan Bencadlys y Gwasanaeth Ansolfedd).

Mae hawl gan unigolion wybod pa wybodaeth sy'n cael ei chadw amdanynt gan y derbynnydd swyddogol / y Gwasanaeth Ansolfedd. Fodd bynnag, nid oes gofyn i ni roi gwybodaeth i chi a fyddai'n debygol o amharu ar y derbynnydd swyddogol neu'r Gwasanaeth Ansolfedd yn cyflawni swyddogaethau priodol a gynlluniwyd i amddiffyn aelodau'r cyhoedd rhag colled ariannol oherwydd ymddygiad methdalwyr a ryddhawyd a methdalwyr heb eu rhyddhau.

Mae'r rhan fwyaf o wybodaeth amdanoch chi'n cael ei chadw gan y derbynnydd swyddogol a bydd wedi dod wrthych chi yn yr holiadur a lenwoch a'ch datganiadau a wnaethpwyd i'r derbynnydd swyddogol. Wrth reswm, byddwch chi'n gwybod y wybodaeth hon yn barod ond gallwch wirio ei chywirdeb os hoffech wneud hynny.

Sylwch fod gwybodaeth gyfrifiadurol sy'n cael ei chadw amdanoch chi ar y Gofrestr Ansolfedd Unigol ar gael i aelodau'r cyhoedd ei darllen. Mae ein taflen o'r enw "Individual Insolvency Register" [Cofrestr Unigolion Ansolfedd] yn rhoi manylion y math o wybodaeth a gedwir ar y gofrestr ac mae ar gael o'n gwefan, www.insolvency.gov.uk, neu swyddfa eich derbynnydd swyddogol lleol.

Os ydych am gael gwybod mwy am yr wybodaeth sy'n cael ei chadw amdanoch, neu am y rhesymau dros ei chadw, dylech gysylltu â'r derbynnydd swyddogol a benodwyd i ddelio â'ch methdaliad. Bydd yn rhoi ffurflen safonol cais am ddata i chi ei llenwi a'i dychwelyd gyda dogfennau adnabod priodol a bydd yn rhoi manylion llawn y math o wybodaeth y mae modd i chi ei chael. Ar ôl cael y ffurflen gais wedi'i llenwi, mae gan y derbynnydd swyddogol 40 diwrnod i ddelio â'ch cais. Pan gewch chi'r wybodaeth hon, os gwelwch ei bod yn wallus a/neu'n anghywir fe ddylech, yn y lle cyntaf, ysgrifennu at y derbynnydd swyddogol gyda manylion llawn. Os yw'n debygol y bydd gwybodaeth am eich cais yn cael ei chadw gan Bencadlys y Gwasanaeth Ansolfedd, bydd y derbynnydd swyddogol yn rhoi gwybod i chi am hynny pan fydd yn ymateb i'ch cais. Er mwyn cael yr wybodaeth gan Bencadlys y Gwasanaeth Ansolfedd, bydd angen i chi wneud cais ar wahân (gan ddefnyddio ffurflen safonol cais am ddata a dwy ddogfen adnabod) i'r Pennaeth Adran priodol sy'n gyfrifol am gadw'r wybodaeth amdanoch chi yn 21 Bloomsbury Street, Llundain WC1B 3QW. Lle bo sawl adran yn cymryd rhan, efallai bydd gofyn i chi anfon y ffurflen a'r dogfennau adnabod at y Swyddog Cyswllt Diogelu Data yn y Gwasanaeth Ansolfedd yn yr un cyfeiriad.

Cewch ragor o wybodaeth am Ddeddf Diogelu Data 1998 o Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire SK9 5AF (Ffôn: 08456 306060) neu o'i gwefan: www.informationcommissioner.gov.uk.

16. Cyhoeddiadau Perthnasol gan y Gwasanaeth Ansolfedd

Gwybodaeth am y Gwasanaeth

A Guide to The Insolvency Service [Canllaw i'r Gwasanaeth Ansolfedd]

Complaints Procedure: Information on making a complaint [Gweithdrefn Gwyno: Gwybodaeth am wneud cwyn]

The Insolvency Service Charter [Siarter y Gwasanaeth Ansolfedd] *

The Insolvency Service Publications Scheme [Cynllun Cyhoeddiadau'r Gwasanaeth Ansolfedd]

Gwybodaeth am weithdrefnau ansolfedd

A Guide for Creditors [Canllaw i Gredydwyr] *

A Guide for Directors [Canllaw i Gyfarwyddwyr] *

Bankruptcy law - what is and what isn't changing under the Enterprise Act 2002 [Cyfraith methdaliad – beth sy'n newid a beth sy'n aros yr un fath o dan Ddeddf Menter 2002]

Bankruptcy Restrictions Orders [Gorchmynion Cyfyngiadau Methdaliad]

Can my bankruptcy be cancelled? - Information on annulment of a bankruptcy order [A ellir canslo fy methdaliad? - Gwybodaeth am ddirymu gorchymyn methdaliad]

Changes to bankruptcy law under the Enterprise Act 2002 [Newidiadau i gyfraith methdaliad o dan Ddeddf Menter 2002]

Fast-track Voluntary Arrangements [Trefniadau Gwirfoddol Llwybr Carlam]

Individual Insolvency Register [Cofrestr Unigolion Ansolfedd]

Information and Guidance for members of the Creditors' Committee [Gwybodaeth ac Arweiniad i aelodau'r Pwyllgor Credydwyr]

When will my bankruptcy end? [Pryd fydd fy methdaliad yn dod i ben?]

What happens when you are interviewed by The official receiver [Beth sy'n digwydd pan gewch gyfweliad gan y derbynnydd swyddogol] *

What will happen to my bank account? [Beth fydd yn digwydd i fy nghyfrif banc?]

What will happen to my home? [Beth fydd yn digwydd i fy nghartref?] *

What will happen to my pension? [Beth fydd yn digwydd i fy mhensiwn?]

Alternatives to Bankruptcy [Dewisiadau yn lle Methdaliad]

Ymarferwyr Ansolfedd

Trustees & liquidators in bankruptcies and compulsory liquidations - Information on the appointment, functions, powers and payment of trustees and liquidators, and their complaints procedure [Ymddiriedolwyr a datodwyr mewn methdaliad a datodiad gorfodol – Gwybodaeth am benodi, swyddogaethau, pwerau a thalu ymddiriedolwyr a datodwyr, a'u gweithdrefn gwyno]

How to make a complaint against an insolvency practitioner [Sut i wneud cwyn yn erbyn ymarferwr ansolfedd]

Delio â Dyled

How to make someone bankrupt [Sut i wneud rhywun yn fethdalwr]

How to petition for your own bankruptcy [Sut i ddeisebu am eich methdaliad eich hun]

How to wind up a company that owes you money [Sut i ddirwyn cwmni sydd arno arian i chi i ben]

How to wind up a partnership [Sut i ddirwyn partneriaeth i ben]

How to wind up your own company [Sut i ddirwyn eich cwmni eich hun i ben]

Mae'r holl gyhoeddiadau hyn ar gael ar ein gwefan www.insolvency.gov.uk

*Mae'r taflenni hyn ar gael hefyd mewn Wrdw, Tsieineeg Traddodiadol, Cymraeg a Sylheti. Ar ben hynny, maent ar gael ar dâp sain, os gofynnir am un, o swyddfeydd y derbynnydd swyddogol.

Dim ond gwybodaeth gyffredinol sydd yn y llyfryn hwn. Gwnaed pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn gywir, ond nid yw'n ddatganiad llawn ac awdurdodol o'r gyfraith ac ni ddylech ddibynnu arno felly. Ni all y Gwasanaeth Ansolfedd dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw wallau na hepgoriadau o ganlyniad i esgeulustod neu fel arall.

© Hawlfraint y Goron 2007.

Mae'r wybodaeth yn y llyfryn hwn yn cael ei diogelu gan hawlfraint y Goron. Gellir atgynhyrchu'r deunydd hawlfraint y Goron yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng heb fod angen caniatâd penodol. Mae hyn yn amodol ar atgynhyrchu'r deunydd yn gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn dull diraddiol nac mewn cyd-destun camarweiniol. Lle bo'r deunydd yn cael ei gyhoeddi neu ei roi i eraill, dylid cydnabod y ffynonellau a statws yr hawlfraint. Pe byddai cyfyngiad ar atgynhyrchu, byddai unrhyw ddefnydd arfaethedig arall o'r deunydd yn amodol ar gymeradwyaeth Llyfrfa Ei Mawrhydi. Dylid anfon ceisiadau at Dîm Polisi Trwyddedu a Gwybodaeth Llyfrfa Ei Mawrhydi, Swyddfa Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus, St Clements House, 2-16 Colegate, Norwich NR3 1BQ. Ffôn: 01603 621000 Ffacs: 01603 723000.

Nid yw'r caniatâd i atgynhyrchu deunydd hawlfraint y Goron yn ymestyn i unrhyw ddeunydd yn y llyfryn hwn sy'n cael ei gydnabod fel hawlfraint trydydd parti. Byddai angen awdurdodiad i atgynhyrchu deunydd o'r fath gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw. Am ragor o fanylion ar drwyddedu hawlfraint y Goron, gweler y canllawiau cyfredol ar http://www.opsi.gov.uk/advice/crown-copyright/copyright-guidance/index.htm a gyhoeddwyd gan Swyddfa Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus ar gyfer Llyfrfa Ei Mawrhydi

Gallwch gael copïau pellach o'r cyhoeddiad hwn drwy e-bost gan y canlynol publications@berr.gsi.gov.uk

Gallwch hefyd archebu copïau o'n cyhoeddiadau dros y ffôn drwy ffonio'r Llinell Archebu Cyhoeddiadau ar 0845 015 0010. Gallwch hefyd ffacsio archebion i'r Llinell Archebu ar 0845 015 0020.
Dylai pobl sy'n defnyddio Minicom ffonio 0845 015 0030.

URN 08/615